OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1565 (Cy.180)

HARBYRAU, DOCIAU, PIERAU A FFERÏAU, CYMRU

Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

Gwnaed - - - -	*21 Mehefin 2011*
Yn dod i rym - -	*1 Gorffennaf 2011*

Mae William Cleevely, Rosemary Hayes, Jim Codd a Phil Baker, sef y personau sydd ar hyn o bryd yn rhedeg ymgymeriad harbwr Saundersfoot, wedi gwneud cais am orchymyn grymuso harbwr o dan adran 16 o Ddeddf Harbyrau 1964(**1**);

Ni wnaed unrhyw wrthwynebiad i'r cais yn unol â hysbysiad a gyhoeddwyd yn unol â pharagraff 10(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964;

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni fel y crybwyllir yn is-adran (5) o'r adran 16 a enwyd;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 16(2) o Ddeddf Harbyrau 1964 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

RHAN 1

RHAGARWEINIOL

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2011.

(3) Daw darpariaethau canlynol y Gorchymyn hwn i rym ar ddyddiad y cyfansoddiad newydd—

erthygl 4(1);

erthygl 5(1);

erthygl 7(1)(b);

(**1**) 1964 p.40; diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Trafnidiaeth 1981 (p. 56), adran 18 ac Atodlen 6, paragraffau 3, 4(1) a 14, a chan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p.42), Atodlen 3, paragraff 2.

(**2**) O.S. 1999 Rhif 672, fel y'i haddasir gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000 Rhif 253) ac Atodlen 3 iddo, ac fel y'i cymhwysir gan baragraff 26 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

erthygl 58; ac

erthygl 64.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu'n wahanol—

mae "angorfeydd" ("*moorings*") yn cynnwys jetïau arnofiol, pontynau, bwiau a chyfarpar neu gyfleusterau cyffelyb;

ystyr "yr awdurdodau lleol" ("*the local authorities*") yw Cyngor Sir Penfro a Chyngor Cymuned Saundersfoot;

mae "awyren fôr" ("*seaplane*") yn cynnwys cwch hedfan ac unrhyw fath arall o awyren a gynlluniwyd i symud ar wyneb y dŵr;

ystyr "y Comisiynwyr" ("*the Commissioners*") yw Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot a gyfansoddir gan y Gorchymyn hwn, ac ystyr "Comisiynydd" ("*Commissioner*") yw un o'r Comisiynwyr;

ystyr "y Comisiynwyr blaenorol" ("*the former Commissioners*") yw Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot a gyfansoddwyd gan Orchymyn 1958;

ystyr "corff sy'n penodi" ("*appointing body*") yw unrhyw un o'r personau (sef yr awdurdodau lleol a'r panel penodiadau) y penodir Comisiynwyr ganddynt yn unol ag erthygl 5;

ystyr "Deddf 1847" ("*the 1847 Act*") yw Deddf Cymalau Harbyrau, Dociau a Phierau 1847(**3**);

ystyr "Deddf 1964" ("*the 1964 Act*") yw Deddf Harbyrau 1964(**4**);

ystyr "Deddf 1965" ("*the 1965 Act*") yw Deddf Prynu Gorfodol 1965(**5**);

ystyr "dyddiad y cyfansoddiad newydd" ("*new constitution date*") yw diwrnod cyntaf y mis sy'n cychwyn yn union wedi 3 mis ar ôl gwneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "dyfrfad personol" ("*personal watercraft*") yw unrhyw ddyfrfad (nad yw'n strwythur sydd oherwydd ei siâp ceugrwm yn darparu hynofedd ar gyfer cludo personau neu nwyddau), a yrrir gan beiriant jet neu fath arall o yriant mecanyddol ac sy'n cael ei lywio naill ai—

(a) drwy system o gysylltiadau a weithredir gan gyrn llywio (pa un a oes llyw ym mhen ôl y dyfrfad ai peidio);

(b) drwy ddefnyddio pwysau'r person neu bersonau sy'n reidio'r bad at y diben hwnnw; neu

(c) drwy gyfuniad o'r dulliau y cyfeirir atynt yn (a) a (b);

ystyr "y dynesfeydd" ("*the approaches*") yw unrhyw ddynesfeydd at yr harbwr o gyfeiriad y môr;

ystyr "Gorchymyn 1958" ("*the 1958 Order*") yw Gorchymyn Harbwr Saundersfoot 1958(**6**);

ystyr "gwaith llanwol" ("*tidal work*") yw cymaint o unrhyw waith sydd ar, o dan neu dros ddyfroedd llanwol neu dir sydd islaw lefel y penllanw;

mae i "Gweinidogion Cymru" ("*the Welsh Ministers*") yr ystyr a roddir i "the Welsh Ministers" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006(**7**);

ystyr "y gweithiau" ("*the works*") yw'r gweithiau a freiniwyd yn y Comisiynwyr blaenorol o dan Orchymyn 1958;

(**3**) 1847 p.27.
(**4**) 1964 p.40.
(**5**) 1965 p.56.
(**6**) O.S. 1958 Rhif 886.
(**7**) 2006 p.32.

ystyr "yr harbwr" ("*the harbour*") yw harbwr Saundersfoot fel y'i diffinnir gan erthygl 22 a'r tir, adeiladau, gweithiau, peiriannau, eiddo a chyfleusterau sy'n gysylltiedig ag ef, neu unrhyw ran ohono neu ohonynt;

mae "yr harbwrfeistr" ("*the harbour master*") yn cynnwys dirprwyon a chynorthwywyr awdurdodedig yr harbwrfeistr ac unrhyw berson a awdurdodir gan y Comisiynwyr i weithredu yn y swydd honno;

ystyr "lefel penllanw" ("*level of high water*") yw lefel gymedrig penllanw'r gorlanwau;

mae "llong" ("*vessel*") yn cynnwys—

(a) badau di-ddadleoliad;

(b) dyfrfadau personol;

(c) awyrennau môr; ac

(ch) unrhyw beth arall a adeiladwyd neu a addaswyd ar gyfer arnofio ar wyneb y dŵr neu i'w roi o dan yr wyneb (yn barhaol neu dros dro) a hofrenfadau neu unrhyw gerbyd amffibiaidd arall, a ddefnyddir neu y gellid ei ddefnyddio fel dull o gludo ar ddŵr;

ystyr "y maes parcio" ("*the car park*") yw'r ardal a amlinellir â llinellau gwyrdd toredig ar y map o'r harbwr;

ystyr "map o'r harbwr" ("*harbour map*") yw'r map a gynhwysir yn Atodlen 5, dyddiedig 3 Ebrill 1958 ac sy'n dwyn yr enw "Map o Derfynau Harbwr Saundersfoot" ("*Map of the Limits of Saundersfoot Harbour*");

ystyr "y mynegai" ("*the index*") yw—

(a) y mynegai cyffredinol prisiau manwerthu (ar gyfer pob eitem) a gyhoeddir gan y Bwrdd Ystadegau, neu

(b) os na chyhoeddwyd y mynegai hwnnw ar gyfer mis perthnasol, unrhyw fynegai neu ffigurau mynegeiol sy'n cymryd ei le ac a gyhoeddwyd gan y Bwrdd hwnnw;

ystyr "y panel penodiadau" ("*the appointments panel*") yw'r panel a gyfansoddir o dan erthygl 7;

ystyr "y pwyllgor cynghori" ("*the advisory committee*") yw'r pwyllgor a benodir o dan erthygl 58(1);

ystyr "refeniwiau'r harbwr" ("*the harbour revenues*") yw'r ardrethi, tollau, ffioedd, rhenti ac arian a derbyniadau eraill a gymerir ac a geir fel incwm o'r ymgymeriad, neu mewn perthynas â'r ymgymeriad, o dan ac yn rhinwedd y Gorchymyn hwn;

ystyr "Trinity House" ("*Trinity House*") yw "The Corporation of Trinity House of Deptford Strond";

ystyr "yr ymgymeriad" ("*the undertaking*") yw ymgymeriad y Comisiynwyr mewn cysylltiad â'r harbwr, ac y mae'n cynnwys yr ystadau, hawliau ac eiddo a roddwyd i, neu a freiniwyd yn y Comisiynwyr blaenorol yn unol â Gorchymyn 1958;

ystyr "ymgymerydd statudol" ("*statutory undertaker*") yw—

(a) unrhyw berson sy'n ymgymerydd statudol at unrhyw un o ddibenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**8**);

(b) unrhyw berson arall sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991(**9**); ac

(c) awdurdod diogelu arfordir o fewn yr ystyr a roddir i "coast protection authority" gan adran 1 o Ddeddf Diogelu'r Arfordir 1949(**10**).

(**8**) 1990 p.8.
(**9**) 1991 p.59.
(**10**) 1949 p.74.

Ymgorffori'r Deddfau Cymalau

3.—(1) Mae'r deddfiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), i'r graddau y maent yn gymwys ac nad ydynt yn anghyson â'r Gorchymyn hwn wedi eu hymgorffori yn y Gorchymyn hwn.

(2) Y deddfiadau yw—

(a) adrannau 60, 62 i 65, a 75 i 83 o Ddeddf Cymalau Comisiynwyr 1847(**11**); a

(b) adrannau 2, 3, 4, 23, 27, 29, 31 i 46, 52, 53, 55 i 59, 61 i 66, 69 i 71, 73 i 78 ac 83 o Ddeddf 1847.

(3) Mae'r deddfiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2)(b) yn cael effaith fel a ganlyn—

(a) ystyr "the harbour, dock or pier" yw'r harbwr;

(b) ystyr "the special Act" yw'r Gorchymyn hwn;

(c) ystyr "the Promoters of the undertaking" a "the undertakers" yw'r Comisiynwyr;

(ch) y gosb uchaf am unrhyw dramgwydd diannod o dan unrhyw un o'r adrannau hynny yw lefel 4 ar y raddfa safonol;

(d) mae i "vessel" yr ystyr a roddir i "llong" ("*vessel*") gan erthygl 2;

(dd) yn adran 23, hepgorir y geiriau "provided that no such lease be granted for a longer term than three years"; ac

(e) nid oes dim yn adran 53 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod yr harbwrfeistr yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o gyfarwyddyd i feistr llong, ond ceir rhoi cyfarwyddiadau o'r fath ar lafar neu mewn unrhyw ffordd resymol arall.

RHAN 2

Y COMISIYNWYR

Y Comisiynwyr

4.—(1) Yn ddarostyngedig i erthygl 9, bydd corff o wyth o Gomisiynwyr, a adwaenir fel Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot, a benodir yn unol â Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn a chyda phŵer i arfer y swyddogaethau a roddir i'r Comisiynwyr gan neu o dan y Gorchymyn hwn.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn, rhaid i'r Comisiynwyr redeg yr ymgymeriad fel pe bai'r Comisiynwyr, ym mhob cyswllt, yr un person â'r Comisiynwyr blaenorol.

Cyfansoddiad y Comisiynwyr

5.—(1) Ar ac ar ôl dyddiad y cyfansoddiad newydd, cyfansoddir y Comisiynwyr fel a ganlyn—

(a) un aelod a benodir gan bob un o'r canlynol—

(i) Cyngor Sir Penfro; a

(ii) Cyngor Cymuned Saundersfoot; a

(b) chwe aelod a benodir gan banel penodiadau.

(2) Rhaid i bob Comisiynydd a benodir o dan baragraff (1) fod yn berson sy'n ymddangos i'r corff sy'n penodi yn berson y mae ganddo wybodaeth, profiad neu allu arbennig, sy'n briodol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Comisiynwyr yn effeithlon, effeithiol a darbodus gan gynnwys gwybodaeth, profiad neu allu arbennig mewn un neu ragor o'r materion canlynol—

(a) rheoli harbyrau;

(**11**) 1847 p.16.

(b) llongau neu fathau eraill o gludiant;

(c) pysgota morol;

(ch) profiad masnachol neu ddiwydiannol priodol;

(d) rheolaeth ariannol;

(dd) gweinyddu a threfnu gweithwyr;

(e) defnyddio'r harbwr ar gyfer chwaraeon a hamdden;

(f) materion amgylcheddol sy'n effeithio ar harbyrau;

(ff) gwybodaeth benodol neu ddiddordeb ynglŷn â'r gymuned leol a'r gymuned ehangach, yn y cyd-destun economaidd a chymdeithasol y mae'r Comisiynwyr yn gweithredu ynddo;

(g) twristiaeth a hamdden; ac

(ng) unrhyw sgiliau a galluoedd eraill a ystyrir gan y Comisiynwyr o bryd i'w gilydd yn berthnasol o ran cyflawni eu swyddogaethau fel Comisiynwyr;

a rhaid i'r panel penodiadau ymdrechu i sicrhau, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, bod gan y Comisiynwyr a benodir, ar y cyd, wybodaeth, profiad a gallu arbennig mewn ystod eang a chydategol o faterion sy'n berthnasol o ran cyflawni eu swyddogaethau yn effeithlon, effeithiol a darbodus.

Dethol Comisiynwyr

6.—(1) Rhaid i bob corff sy'n penodi wneud y penodiadau y darperir ar eu cyfer gan erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn ar sail teilyngdod, yn unol â pholisi recriwtio cyhoeddedig ac ar ôl rhoi sylw i gyfle cyfartal.

(2) Wrth wneud penodiad o dan erthygl 5(1) rhaid i bob corff sy'n penodi weithredu yn unol ag unrhyw ganllawiau a ddyroddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru ynglŷn ag arfer swyddogaethau o'r fath.

Y panel penodiadau

7.—(1) Bydd panel penodiadau, a fydd yn cynnwys—

(a) cadeirydd neu is-gadeirydd y Comisiynwyr;

(b) un person a enwebir gan y pwyllgor cynghori;

(c) un person a enwebir gan Gyngor Sir Penfro; ac

(ch) un person a enwebir gan Gyngor Cymuned Saundersfoot.

(2) Rhaid i'r panel penodiadau ymgynghori â'r Comisiynwyr cyn gwneud unrhyw benodiad, a rhoi i'r clerc hysbysiad ysgrifenedig o bob penodiad a wneir gan y panel penodiadau.

(3) Rhaid i bob aelod o'r panel penodi weithredu'n annibynnol, ac nid fel cynrychiolydd y corff a enwebodd yr aelod hwnnw.

(4) Ni chaiff gweithredoedd a thrafodion y panel penodiadau eu hannilysu gan unrhyw swydd wag sengl ymhlith ei aelodau.

Penodi Comisiynwyr a thymhorau mewn swydd

8.—(1) Rhaid gwneud y penodiadau cyntaf o dan erthygl 5(1) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, a beth bynnag cyn dyddiad y cyfansoddiad newydd.

(2) O blith y Comisiynwyr a benodir felly—

(a) bydd pedwar ohonynt yn dal swydd am gyfnod o dair blynedd sy'n cychwyn ar ddyddiad y cyfansoddiad newydd, a rhaid penodi un o'r pedwar i gadeirio'r Comisiynwyr;